



Ymhell cyn geni Ioan, roedd Duw wedi addo anfon ei Frenin (y Crist) i achub ei bobl. Ond cyn y gallai ei waith ef ddechrau, roedd yn rhaid i'r bobl gael eu paratoi. Fe gafodd Ioan ei anfon i ddweud wrthyn nhw fod Brenin Duw yn dod, y byddai'n rhaid iddyn nhw newid eu ffyrdd ac ufuddhau i Dduw. Er pan oedd yn faban roedd Ioan yn arbennig. Ond roedd baban arall, a gafodd ei eni yn fuan ar ôl Ioan, yn fwy arbennig fyth. Mae hanes geni'r baban hwn i'w gael ym mhenodau cyntaf Efengylau Mathew a Luc.

Amser maith yn ôl, cyn y Nadolig cyntaf, roedd merch ifanc brydferth o'r enw Mair yn byw yn nhref fechan Nasareth. Un diwrnod, pan oedd Mair yn brysur yn y tŷ, fe gafodd yr ystafell ei llenwi â goleuni disglair iawn. Yno, yn y golau, roedd angel yn sefyll. Roedd Mair wedi cael braw mawr. 'Paid ag ofni, Mair,' meddai'r angel. 'Mae'r neges sydd gen i i ti yn neges lawen iawn. Rwyd ti'n mynd i gael mab bach.' 'Ond does gen i ddim gŵr,' atebodd Mair. 'Fe fydd yn Fab i Dduw ei hun,' meddai'r angel. 'Rhaid i ti ei alw yn Iesu.' 'Fe wna i beth bynnag y mae Duw yn ei ddymuno,' meddai Mair, ac aeth yr angel oddi yno.

Roedd gŵr ifanc yn Nasareth o'r enw Joseff. Roedd ef yn caru Mair. Roedd arno eisiau i Mair ei briodi. Aeth yr angel at Joseff mewn breuddwyd. 'Rydw i wedi dod i ddweud wrthyd ti fod Mair yn mynd i gael baban bach. Mab Duw ydy hwn,' meddai'r angel. 'Rhaid i chi alw'r plentyn yn Iesu. Mae e wedi dod i achub yr holl fyd.' Yna fe aeth yr angel oddi yno. Fe wnaeth Mair a Joseff eu cynlluniau i briodi. Roedden nhw'n caru ei gilydd yn fawr iawn. Roedden nhw'n siarad yn aml am neges yr angel ac am y baban arbennig. 'Fydd pobl yn credu mai Iesu ydy Mab Duw?' holodd Mair. 'Paid â phoeni,' meddai Joseff. 'Fe fydd rhai pobl yn deall. Mae Duw wedi addo anfon person arbennig i achub y byd. Nawr fe fedrwn ni fod yn falch ei fod wedi cadw ei air.' Fe arhosodd Mair a Joseff i Iesu gael ei eni. Roedd llawer o waith paratoi ar gyfer y baban. Roedd yr amser i ddisgwyl yn hir.

Un diwrnod fe glywsen nhw fod yr Ymerawdwr oedd yn rheoli eu gwlad wedi gwneud deddf newydd. 'Mae'n rhaid i bawb deithio yn ôl i'r dref lle cawson nhw eu geni i'w henwau gael eu hysgrifennu ar gofrestr,' meddai Joseff wrth Mair. 'Fe fydd yn rhaid i ni fynd yr holl ffordd i Fethlehem.' 'Fe fyddwn i wedi hoffi aros gartref i gael fy maban, ond fe ddywedodd y proffwyd y byddai Mab Duw yn cael ei eni ym Methlehem,' meddai Mair, wrth i'r asynnod eu cario ar eu taith. 'Rydw i wedi blino cymaint,' meddai hi, 'ac mae'r ffordd yn bell.' Pan ddaethon nhw i'r dref, roedd hi'n brysur iawn yno. Roedd cymaint o

Mae'r daflen hon yn perthyn i:



bobl wedi dod i Fethlehem i gofrestru fel nad oedd lle ar ôl yn y llety. Ond fe ddywedodd gŵr y llety y caen nhw aros yn y stabl lle'r oedd ef yn cadw ei anifeiliaid. Fe helpodd Joseff Mair oddi ar gefn yr asyn a mynd â hi i'r stabl. Gwnaeth Mair wely iddyn nhw ar y gwair â'i mantell gynnes. Roedd hi'n gwybod y byddai ei baban yn cael ei eni yn fuan iawn.

Pan gafodd y baban ei eni, lapiodd Mair ef yn gynnes a gwneud lle iddo gysgu yn y preseb, lle'r oedd gwair yr anifeiliaid yn cael ei gadw. 'Iesu ydy ei enw,' medden nhw. 'Mab Duw ei hun ydyw.' Roedd yr anifeiliaid yn sefyll yn eu gwyllo. Roedd eu hanadl cynnes yn llenwi'r stabl fechan. Fu hi ddim yn dawel yn hir. Gwichiodd drws y stabl wrth gael ei agor pan ddaeth bugeiliaid i mewn. 'Ble mae'r baban?' oedd eu cwestiwn i Joseff. 'Gawn ni ei weld?' 'Wrth gwrs,' meddai Joseff. 'Ond sut oeddech chi'n gwybod bod baban wedi cael ei eni?' 'Roedden ni allan ar y bryniau gyda'n defaid,' meddai'r bugeiliaid. 'Yn sydyn roedd golau disglair o'n cwmpas ac fe ddaeth angylion Duw aton ni. Fe ddywedon nhw wrthyn ni fod baban yma a fyddai'n tyfu i'n hachub ni i gyd. Ac fe ddaethon ni ar unwaith i chwilio amdano.' Aeth y bugeiliaid yn ôl at eu defaid. Fe ddywedon nhw'r hanes wrth bawb a welson nhw.

Arhosodd Mair a Joseff ym Methlehem am ychydig amser. Un diwrnod roedd cnoc ar y drws. Roedd ymwelwyr pwysig yn sefyll y tu allan. 'Rydyn ni wedi dod o bell i weld y baban frenin,' meddai'r gwŷr doeth. 'Ydy ef yma o ddifri?' 'Ydy,' meddai Joseff. 'Ond sut oeddech chi'n gwybod bod baban wedi cael ei eni?' 'Fe welson ni seren ddisglair yn yr awyr,' medden nhw. 'Roedd ein llyfrau ni yn dangos i ni y byddai'r seren hon yn ein harwain at y baban a gafodd ei eni i fod yn frenin yn Israel. Felly fe ddilynon ni'r seren.' Fe benliniodd yr ymwelwyr wrth ochr y baban a rhoi rhoddion o aur, thus a myrr iddo. Wedi i'r ymwelwyr fynd i ffwrdd, fe edrychodd Mair a Joseff ar eu baban. Roedd ganddyn nhw gymaint i feddwl amdano. Roedden nhw'n cofio am yr angylion oedd wedi dod at y bugeiliaid, a'r seren ddisglair oedd wedi arwain y gwŷr doeth. Fe edrychon nhw wedyn ar y rhoddion hardd. 'O'r diwedd mae Duw wedi anfon ei Fab i Israel,' meddai Joseff. 'Ydy,' meddai Mair, 'i Israel ac i'r holl fyd. Fe ddaeth y doethion o bell. Efallai bod amyn nhw ei angen hefyd.' Fe ddiolchodd Mair a Joseff i Dduw am y baban Iesu. Roedden nhw'n gwybod bod Duw wedi cadw ei air ac wedi anfon ei Fab i achub yr holl fyd. Ar y pryd doedden nhw ddim yn deall beth oedd y gwaith oedd gan Dduw ar gyfer Iesu. Ond roedden nhw'n gwybod y byddai ef yn dangos i'r byd sut un ydy Duw.



Mae'r daflen hon yn perthyn i: